15. Mae'r rhaglenni Ewropeaidd a gyflenwir trwy "reolaeth uniongyrchol" yn cwmpasu ystod eang o ffrydiau ariannu. Nod y rhaglenni yw hyrwyddo buddiannau'r UE neu gyfrannu at weithredu rhaglenni neu bolisïau yr UE ac mae llawer yn gofyn am bartneriaeth neu gydweithredu traws-wladol. Yn wahanol i'r rhaglenni'r UE a gyflenwir trwy "rannu rheolaeth" megis y Cronfeydd Strwythurol a Rhaglenni'r PAC, yn gyffredinol nid yw'r rhaglenni'n cael eu hanelu at ranbarthau penodol, ond maent yn agored i gystadleuaeth o bob rhan o'r UE. Felly, mae'n hanfodol bod sefydliadau yng Nghymru yn gallu manteisio ar botensial llawn y cyfleoedd hyn.
16. Y rhaglenni sy'n benodol berthnasol i Gymru yw Cysylltu Ewrop, COSME, Ewrop Creadigol, Erasmus+, EaSI a LIFE.
17. Yn ogystal â'r cyfleoedd sylweddol o dan raglen Horizon 2020, gall y rhaglenni wneud cyfraniad hanfodol i'n nodau datblygu economaidd drwy gefnogi busnesau bach, hyrwyddo arloesedd a gwella cysylltiadau trafndiaeth .

¹ Mae'r ymgynghoriad ar gael ar y wefan ganlynol. <http://www.interreg4c.eu/interreg-europe/public-consultation/>

² Ar sail ffigurau gan Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU.

- Mae gan *Cysylltu Ewrop* gyllideb sylweddol o €33bn i gefnogi datblygiad rhwydweithiau traws-Ewropeaidd yn y maes ynni, telathrebu a thrafnidiaeth. Targedir llawer o'r gyllideb at wella seilwaith mewn gwledydd Cydlyniant ond yn y gorffennol mae Network Rail wedi bod yn llwyddiannus wrth gael mynediad at €11 miliwn ar gyfer ei brosiect Trydaneiddio Rheilffordd y Great Western ac mae Cymru wedi elwa o'r Systemau Trafnidiaeth Deallus traws-Ewropeaidd ar gyfer ffyrdd. Yr Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sy'n arwain polisi ar y rhaglen hon o fewn Llywodraeth Cymru.
 - Mae rhaglen €2bn *COSME* yn cynnwys camau gweithredu i wella mynediad at gyllid a marchnadoedd ar gyfer busnesau bach a chanolig. Mae Rhwydwaith Menter Ewrop yng Nghymru yn cael ei chyflwyno gan BIC Innovation a Phrifysgol Abertawe. Yr Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sy'n arwain polisi ar y rhaglen hon o fewn Llywodraeth Cymru.
 - Rhaglen gwerth €1.5 biliwn yw *Ewrop Creadigol* i annog y sectorau diwylliannol a chreadigol i fanteisio i'r eithaf ar y Farchnad Sengl a chyrraedd cynulleidfaoedd mewn gwledydd eraill. Mae cwmnïau o Gymru wedi sicrhau €2.5m o raglen MEDIA 2007-13 a fydd yn awr yn ffurfio rhan o raglen *Ewrop Creadigol* ar gyfer 2014-2020. Yr Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sy'n arwain polisi ar y rhaglen hon o fewn Llywodraeth Cymru .
18. Mae myfyrwyr o Gymru wedi cael budd sylweddol o raglenni addysg a sgiliau yr UE.
- Mae rhaglen €15 biliwn *ERASMUS+* 2014-2020 yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi symudedd dysgu unigolion a chydweithio ar gyfer arloesedd a chyfnewid arferion da. Yr Adran Addysg a Sgiliau sy'n arwain polisi ar y rhaglen hon o fewn Llywodraeth Cymru ac mae'n chwarae rhan weithredol mewn Grŵp Ymgynghorol gan gynghori ar ffyrdd o sicrhau'r fantais fwyaf o'r cronfeydd yng Nghymru.
 - Rhaglen newydd €815m yw *EaSI* sy'n helpu i wella cyflogaeth a pholisïau cymdeithasol, gan gynorthwyo gyda symudedd gweithwyr ac mae'n cynnwys Cyfleuster Microgyllid. Yr Adran Addysg a Sgiliau sy'n arwain polisi ar y rhaglen hon o fewn Llywodraeth Cymru.
19. Mae lle sylweddol hefyd i gefnogi diogelu adnoddau naturiol Cymru. Mae'r rhaglen *LIFE* newydd (€ 3.5bn) yn cefnogi effeithlonrwydd adnoddau, natur, bioamrywiaeth a lliniaru newid yn yr hinsawdd a mesurau addasu. Mae Cymru wedi elwa o nifer o brosiectau, sy'n cael eu cyflenwi gan Adnoddau Naturiol Cymru o dan y rhaglen a'i rhagflaenodd i adfer Corsydd Môn a Llŷn (grant €2.7 miliwn) a rhaglen adfer Natura 2000 yng Nghymru (grant €655k). Yr Adran Adnoddau Naturiol a Bwyd sy'n arwain polisi ar y rhaglen hon o fewn Llywodraeth Cymru.

Mecanweithiau cefnogol i gael mynediad at ariannu

20. Mae gwefan EUROPA yr UE³ yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr ar Raglenni yr UE, gan gynnwys rhaglenni a reolir yn uniongyrchol. Mae'r UE hefyd yn defnyddio nifer o sefydliadau partner i hwyluso rhannu gwybodaeth a darparu cyngor ar geisiadau am gyllid. Yng Nghymru, maent yn cynnwys **Rhwydwaith Menter Ewrop** sy'n helpu sefydliadau i ddatblygu trwy ddarparu cyngor a chymorth ar gyfer arloesi a datblygu technoleg traws-wladol, a Chanolfannau Gwybodaeth Uniongyrchol Ewrop. Mae llawer o sefydliadau Cymreig, megis Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Uwch, hefyd yn cyflogi Swyddogion Ewropeaidd i hwyluso mynediad at gronfeydd yr UE.
21. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn sicrhau bod sefydliadau ac unigolion yng Nghymru yn cael budd llawn o'r cronfeydd hyn. Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfeirio at brif ffynonellau rhaglenni ariannu ac yn ogystal â'r camau a ddisgrifir uchod, mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn dal y Ddesg MEDIA Antenna ar gyfer Cymru.

Strategaeth CTE

22. Gwnaed yr argymhelliad canlynol yn adroddiad 2011 y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol mewn perthynas â'r CTE ar 'gyfranogiad Cymru mewn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes':

'Argymhelliad 9: Llywodraeth Cymru i adolygu ei Strategaeth Cydweithio Tiriogaethol ac archwilio'r cyfle i weithio mewn partneriaeth ar brosiectau a ariennir, yn enwedig gyda'r dinasoedd a'r rhanbarthau hynny sydd eisoes â threfniadau gweithio, gan gynnwys drwy Femoranda o Ddealltwriaeth a Gefeillio.'

Mae'r Strategaeth Cydweithio Tiriogaethol i fod i gael ei adolygu a'i diwygio yn dilyn cyhoeddi astudiaeth Cwmpasu Cydweithio Tiriogaethol ym Mawrth 2014 ar gyfer y cyfnod 2007-2013. Cafodd yr astudiaeth cwmpasu ei chomisiynu gan WEFO er mwyn helpu i lywio datblygiad y rhaglenni CTE newydd. Bydd diweddariad o strategaeth CTE yn cymryd ystyriaeth o ganfyddiadau'r Astudiaeth Cwmpasu ac mae eisoes yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad cyfres 2014-2020 o raglenni CTE.

Ariannu'r UE yng Nghyllidebau Llywodraeth Cymru

23. Mae pob adran yn cynllunio ei phrosiectau ei hun y mae'n gobeithio derbyn cefnogaeth yr UE ar eu cyfer. Wrth gynllunio ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol benodol, bydd llawer o'r gefnogaeth yma wedi cael ei sicrhau yn barod, gan fod llawer o brosiectau yn rhedeg dros nifer o flynyddoedd. Ar gyfer 2014/15, bydd adrannau Llywodraeth Cymru yn cynllunio i'w gwariant eu hunain gael ei ategu gan gronfeydd yr UE o gylch ariannu 2007-2013 ac o gylch ariannu newydd 2014-2020 (cronfeydd a weinyddir drwy Awdurdodau Rheoli yng Nghymru a'r rhai a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn).

³ www.europa.eu

24. O dan y rheoliadau, gall prosiectau barhau i wario i mewn i 2015 ac mae nifer o brosiectau Llywodraeth Cymru wedi cael cymeradwyaeth i wneud hynny. Mae hyn yn caniatáu cyfnod o orgyffwrdd gyda'r rhaglenni newydd, felly mae adrannau yn llunio cynigion ar hyn o bryd ar gyfer gweithrediadau allweddol yn y cylch ariannu nesaf gyda golwg iddynt gael eu cymeradwyo yn ystod 2014. Bydd hyn o gymorth i gynnal sicrwydd a pharhad y ddarpariaeth lle mae'r gweithgareddau yn y cylch newydd yn agos at y rhai sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd

Atodiad A

Rhaglenni CTE yng Nghymru 2007-2013

	Cyfanswm Gwerth Rhaglen / €	Cyfanswm gwerth Rhaglen / ERDF / €	Nifer Prosiectau a Gymeradwywyd gyda phartneriaid o Gymru	Cyfanswm costau prosiect / €	Cyfanswm Grant ERDF / €	Cyfanswm Costau yng Nghymru / €	Cyfanswm ERDF Cymru / €
Iwerddon Cymru Trawsffiniol	70,260,394	52,695,295	41	68,336,179	49,023,050	37,096,481	26,315,400
Ardal Iwerydd Trawswladol	158,798,190	104,051,233	17	38,315,275	24,904,879	7,220,265	4,620,350
Gogledd Orllewin Ewrop Trawswladol	696,668,854	355,443,293	16	110,774,391	55,065,224	17,166,091	8,583,045
Interreg IVC Rhynggranbarthol	405,094,936	321,321,762	13	23,357,799	18,364,756	2,774,582	2,080,936
URBACT Rhynggranbarthol	68,890,739	53,319,170	2	651,410	482,797	12,500	10,000
	1,399,713,113	886,830,753	89	241,435,054	147,840,706	64,269,919	41,609,730

Atodiad B

Rhaglenni eraill yr UE

Cyllideb yr UE (prisiau cyfredol)	Amcanion	Proses ymgeisio / cymorth
Cysylltu Ewrop		
<p>Cyfanswm o €33.3bn</p> <p>€1.1bn ar gyfer digidol</p> <p>€26.3bn ar gyfer trafndiaeth</p> <p>(€11.3bn wedi'i neilltuo ar gyfer gwledydd Cydlyniant) (80-85% ar gyfer y rhwydwaith graidd, 10-15% ar gyfer cyllid arloesedd a 5% ar gyfer y rhwydwaith Gynhwysfawr)</p> <p>€5.9bn ar gyfer ynni</p>	<p>Cefnogi datblygu rhwydweithiau traws-Ewropeaidd ym maes ynni, telathrebu a thrafnidiaeth.</p>	<p>Asiantaeth Weithredol Arloesedd a Rhwydweithiau (INEA) yn cyhoeddi rhaglenni gwaith ac yna'n galw am gynigion blwyddyn ac amflwydd.</p> <p>http://inea.ec.europa.eu/en/home</p>
COSME		

<p>Cyfanswm o €2.298 biliwn</p> <p>€1.4 biliwn ar gyfer benthyciadau a chyfalaf menter</p>	<p>1) mynediad i gyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig, trwy a) cyfleuster gwarantu benthyciad a b) cyfleuster ecwiti</p> <p>2) mynediad i farchnadoedd, o fewn yr Undeb ond hefyd ar lefel byd-eang (wedi'i hwyluso gan y Rhwydwaith Menter Ewrop),</p> <p>3) amodau fframwaith ar gyfer busnesau trwy wella polisi, a</p> <p>4) entrepreneuriaeth a diwylliant entrepreneuridd – cyfnewid arferion da</p>	<p>Gall busnesau bach a chanolig gael gwybodaeth ar gyfryngwyr sy'n cymryd rhan trwy borth ariannu http://access2eufinance.ec.europa.eu</p> <p>Caiff Rhwydwaith Menter Ewrop yng Nghymru ei rhedeg gan BIC Innovation Cyf a Phrifysgol Abertawe http://www.enterpriseeurope.wales.org.uk/wlx/</p>
<p>EWROP CREADIGOL</p>		

<p>€1.463bn</p>	<p>Annog y sectorau diwylliannol a chreadigol i wneud y mwyaf o'r Farchnad Sengl a chyrraedd cynulleidfaoedd mewn gwledydd eraill. Mae gan y rhaglen ddwy is-raglen</p> <p>1) Diwylliant, sy'n cefnogi'r celfyddydau perfformio a gweledol, treftadaeth</p> <p>2) MEDIA, sy'n darparu cyllid ar gyfer y sector sinema a chlywedol.</p>	<p>Asiantaeth Weithredol Addysg, Clyweledol a Diwylliant y Comisiwn Ewropeaidd yn galw am gynigion.</p> <p>Mae cymorth ar gael oddi wrth Ddesg MEDIA Antenna a leolwyd o fewn yr Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.</p> <p>www.mediadeskuk.eu</p> <p>Ac oddi wrth y Cyngor Prydeinig ar gyfer yr is-raglen Diwylliant</p> <p>http://www.culturefund.eu/</p>
<p>EaSI</p>		

<p>€815m</p> <p>61% ar gyfer Progress</p> <p>18% ar gyfer EURES</p> <p>21% ar gyfer Microgyllid ac Entrepreneuriaeth Gymdeithasol</p>	<p>Tair elfen:</p> <p>Mae Progress (Rhaglen Cyflogaeth ac Undod Cymdeithasol Ewrop) yn helpu i wella polisiau ym meysydd cyflogaeth, cynhwysiant cymdeithasol ac amddiffyn rhag tlodi, ac amodau gwaith</p> <p>EURES (Gwasanaethau Cyflogi Ewropeaidd) a</p> <p>Cyfleuster Microgyllid ac Entrepreneuriaeth Gymdeithasol Progress.</p>	<p>Progress yn galw am dendrau neu gynigion (Yr Adran Gwaith a Phensiynau yw'r cyswllt cenedlaethol)</p> <p>EURES yn galw am dendrau neu gynigion</p> <p>Gall y di-waith gael mynediad at microgyllid trwy ddarparu cymeradwy. Nid oes un yn darparu ar gyfer Cymru ar hyn o bryd.</p>
<p>ERASMUS+</p>		
<p>€14.775bn</p>	<p>1) Symudedd dysgu unigolion</p> <p>2) Cydweithredu ar gyfer arloesi a chyfnewid arferion da</p> <p>3) Cymorth ar gyfer diwygio polisi</p> <p>Yn cyfrannu tuag at:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Codi cyrhaeddiad addysg uwch o 32% i 40% • Lleihau'r ganran o'r rhai sy'n gadael ysgol yn fuan o 14% i llai na 10% 	<p>Asiantaethau Cenedlaethol (Y Cyngor Prydeinig ac Ecorys yn y DU) yn hwyluso rheoli a galw am geisiadau ar gyfer 85% o'r cyllid sydd ar gael.</p> <p>http://www.erasmusplus.org.uk/</p> <p>Asiantaeth Weithredol Addysg, Clyweledol a Diwylliant y Comisiwn Ewropeaidd yn galw am gynigion ar gyfer y 15% sy'n weddill.</p>
<p>LIFE</p>		

<p>€3.457bn</p>	<p>Mae gan y rhaglen ddwy is-raglen</p> <p>1) yr amgylchedd, sy'n cynnwys: yr amgylchedd ac effeithlonrwydd adnoddau; natur a bioamrywiaeth; a llywodraethiant a gwybodaeth amgylcheddol;</p> <p>2) Gweithredu ar Hinsawdd, sy'n cynnwys: lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd; addasu i newid yn yr hinsawdd; a llywodraethiant a gwybodaeth hinsawdd.</p>	<p>BetaEurope yn gweithredu fel gwasanaeth Pwynt Cyswllt y DU ar gyfer LIFE+ ar ran Defra a'r Asiantaeth Safonau Bwyd.</p>
-----------------	--	--

Y Pwyllgor Menter a Busnes 20 Mawrth 2014

Y diweddaraf ar Gronfeydd Strwythurol 2014-2020 yr UE gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid

Papur Tystiolaeth

Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar ddatblygiad rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr U Ear gyfer 2014-2020.
2. Bydd y rhaglenni hyn yn cefnogi swyddi a thwf economaidd cynaliadwy yn unol ag Ewrop 2020 a'n Rhaglen Lywodraethu.
3. Mae'r rhaglenni wedi'u hen ddatblygu bellach ac rydym mewn sefyllfa i'w cyflwyno'n ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, ni allwn wneud hynny tan i Gytundeb Partneriaeth y DU gael ei gyflwyno'n ffurfiol.

Pecyn Deddfwriaethol y Cronfeydd Strwythurol

4. Mabwysiadwyd pecyn deddfwriaethol yr UE ym mis Rhagfyr 2013, sy'n golygu bod y Comisiwn Ewropeaidd yn gallu derbyn Cytundebau Partneriaeth a chynigion rhaglen yn ffurfiol bellach gan Aelod Wladwriaethau.
5. Ar ôl eu cyflwyno'n ffurfiol, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn gallu asesu a thrafod y Cytundebau Partneriaeth a'r Rhaglenni Gweithredol er mwyn i ranbarthau, gan gynnwys Cymru, allu dechrau gwneud penderfyniadau buddsoddi cyn gynted â phosibl yn 2014.
6. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyfraniad pwysig, drwy gynrychiolaeth Barhaol y DU yn yr UE, at ddatblygu pecyn deddfwriaethol drafft i helpu i gyflawni ein nodau ar gyfer symleiddio ac integreiddio Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd¹ i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.
7. Rwy'n siarad yn gyson â Gweinidog Busnes a Menter y DU a Gweinidog Ewrop y DU i fonitro datblygiadau a chyfleu blaenoriaethau Cymru'n glir a hefyd gydag ASEau Cymru, sydd wedi bod yn ddylanwadol iawn yn y cyfnod hwn o drafodaethau yn Senedd Ewrop. Rwy'n awyddus i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiwn Ewropeaidd i bwysleisio manteision Cronfeydd Strwythurol yr UE i bobl Cymru: fis yn ôl, cefais gyfle i gyfarfod â László Andor, Comisiynydd Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant Ewrop, i arddangos ein prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop; ac yn ddiweddarach yn y mis byddaf yn cyfarfod y

¹ Y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd fel y meint yn berthnasol i Gymru yw Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

Comisiynydd Hahn, Comisiynydd Polisi Rhanbarthol Ewrop. Yn gynharach yn y mis, bu i mi gyfarfod Cynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd i drafod cynnydd o ran datblygu rhaglenni 2014-2020.

Cytundeb Partneriaeth y DU

8. Mae'r Adran, Busnes, Arloesi a Sgiliau yn arwain y gwaith o baratoi Cytundeb Partneriaeth y DU. Mae'r gwaith o gwblhau'r ddogfen wedi'i oedi gan nifer o ffactorau, gan gynnwys amserlen arafach ar gyfer datblygu'r rhaglen Wledig a rhaglen y Cronfeydd Strwythurol yn Lloegr. Mae'r oedi hwn wedi deillio'n rhannol o'r angen i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ymgynghori â'r Partneriaethau Menter Lleol newydd, a fydd yn gweinyddu'r cronfeydd yn Lloegr, ac mae llawer ohonynt yn eu cyfnod ffurfiannol o hyd.
9. Yn ogystal â hyn cyflwynodd Rhanbarthau Dinas Lerpwl a Sheffield her gyfreithiol y llynedd mewn perthynas â dyraniad Cronfeydd Strwythurol yn Lloegr a arweiniodd at waharddeb yn atal yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau rhag datgelu dyraniadau ariannol arfaethedig y DU i'r Comisiwn (gofyniad allweddol o'r Cytundeb Partneriaeth).
10. Cafodd yr achos ei ystyried gan yr Uchel Lys ddiwedd mis Ionawr, gyda'r Llys yn penderfynu bod yr her wedi methu ar bob sail wirioneddol. Fodd bynnag, diddymwyd penderfyniad y Llywodraeth ar ddyraniad y Cronfeydd Strwythurol ledled y DU mewn perthynas â'r hyn a ystyriwyd yn dordyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel rhan o'r broses benderfynu. Mae hyn wedi'i gwneud yn ofynnol i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ailystyried ei Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Rydym yn deall bod y ddau ranbarth sy'n cyflwyno'r achos yn apelio yn erbyn dyfarniad yr Uchel Lys.
11. Ar wahân, mae methiant yng Ngogledd Iwerddon i gofrestru trosglwyddiad adnoddau o Golofn 1 (y Taliad Sengl) i Golofn 2 (Rhaglen Datblygu Gwledig) rhaglen Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig wedi golygu nad yw gweinyddiaeth ddatganoledig Gogledd Iwerddon wedi gallu cwblhau unrhyw gynigion buddsoddi cysylltiedig: ac mae angen y manylion hyn i gwblhau Cytundeb Partneriaeth y DU. Gallai absenoldeb y manylion hyn olygu bod y Comisiwn Ewropeaidd yn dyfarnu bod y Cytundeb Partneriaeth yn annerbyniadwy. Mae swyddogion Gogledd Iwerddon a Chynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd yn pwysu a mesur opsiynau posibl i oresgyn y broblem hon gyda'r Comisiwn ar hyn o bryd.
12. Cyflwynwyd drafft o Gytundeb Partneriaeth y DU i'r CE ar gyfer ymgynghoriad anffurfiol rhwng gwasanaethau ym mis Tachwedd 2013. Roedd yr adborth anffurfiol a dderbyniwyd ar 20 Rhagfyr yn tynnu sylw at faterion ym mhob pennod. Bwysicaf oll, roedd y CE yn ystyried bod pennod Lloegr angen ei datblygu ymhellach o ran egluro a chyfiawnhau'r buddsoddiadau arfaethedig (gan gynnwys cynigion gwledig) ac roeddynt am weld pennod y DU yn cyfleu darlun mwy cyflawn a chydlynol.

13. Cafodd Pennod Cymru ei chadarnhau gan y Cabinet fis Medi y llynedd a'i chyhoeddi ar wefan WEFO ym mis Tachwedd 2013. Mae wedi'i groesawu ar y cyfan gan y Comisiwn, heb unrhyw faterion pwysig wedi'u codi yn adborth y Comisiwn i'r ymgynghoriad anffurfiol rhwng gwasanaethau ym mis Rhagfyr. Yn ôl y disgwyl, mae'r Comisiwn wedi'n herio ymhellach ynglŷn â'n buddsoddiad arfaethedig mewn TGCh a seilwaith trafndiaeth; rydym yn parhau i weithio ar draws y Llywodraeth i gyflwyno'r achos ar gyfer y buddsoddiadau hyn i swyddogion CE.

Datblygiad y Rhaglenni Gweithredol

14. Ar yr un pryd ag y cyhoeddwyd drafft Pennod Cymru o'r Cytundeb Partneriaeth ym mis Tachwedd, cyhoeddwyd y cynigion rhaglen drafft (y "Rhaglenni Gweithredol") ar wefan WEFO. Er mai drafftiau oedd y rhain a bod angen eu trafod, teimlais ei bod yn bwysig ein bod yn rhoi cymaint o amser â phosibl i'n partneriaid ledled Cymru ar gyfer cynllunio a datblygu cynigion buddsoddi ar gyfer y dyfodol, yn enwedig o ystyried yr oedi cyn trafod rheoliadau a chyflwyno Cytundeb Partneriaeth y DU. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio ar y drafftiau hyn er mwyn mynd i'r afael ag adborth gan y Comisiwn Ewropeaidd ac o ystyried y sylwadau terfynol gan rag-werthuswyr annibynnol.
15. Mae'r oedi cyn cyflwyno Cytundeb Partneriaeth y DU yn effeithio ar ein gallu i gyflwyno'n Rhaglenni Gweithredol yn ffurfiol a dechrau trafodaethau ffurfiol â'r CE. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn ar sail anffurfiol gyda'r bwriad o fyrhau trafodaethau ffurfiol yn sgil hynny. Mae'r adborth manwl diweddaraf a dderbyniwyd gan y Comisiwn ym mis Chwefror yn awgrymu bod ein cynigion wedi'u croesawu ar y cyfan a'n bod gryn dipyn ar y blaen i'n cymheiriaid yn y DU.
16. Rydym mewn sefyllfa i allu cyflwyno'n Rhaglenni Gweithredol yn ffurfiol ar yr un adeg â Chytundeb Partneriaeth y DU. O ystyried y trafodaethau cadarnhaol hyd yma, rydym yn gobeithio gweld cyfnod trafod cymharol fyr ar ein rhaglenni, ond ni allwn gael cymeradwyaeth ffurfiol i'n Rhaglenni Gweithredol tan i Gytundeb Partneriaeth y DU gael ei gymeradwyo'n ffurfiol.

Amserlen

17. Mae'r gwaith hirfaith sy'n gysylltiedig ag ymateb i sylwadau'r Comisiwn ac adolygu dyraniadau ariannol, yn sgil yr Adolygiad Barnwrol, wedi achosi i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau gynnig amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflwyno Cytundeb Partneriaeth y DU yn gynnar ym mis Ebrill 2014.
18. Mae swyddogion WEFO yn rhan o grŵp drafftio'r DU ac yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau i sicrhau y cyflawnir y gwaith o fewn yr amserlen hon, gan gynnwys arwain y gwaith o ddatblygu Fframwaith Perfformiad y DU. Fodd bynnag, o ystyried y materion sydd heb eu datrys a nodir uchod, mae pryderon yn parhau y

gallai lithro ymhellach tuag at y dyddiad cau rheoleiddiol ar gyfer cyflwyno, sef 22 Ebrill 2014.

Trefniadau gweithredu

19. Ar hyn o bryd, mae WEFO yn cwblhau'r trefniadau gweithredu ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020. Rwy'n awyddus i weld cymaint o symleiddio ac integreiddio â phosibl a hoffwn adrodd ar ddau ddatblygiad allweddol, sef:

- cyflawni'r argymhellion Adolygiad Guilford; a
- sefydlu Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru unigol ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi.

20. Mae synergedd a chysylltiadau rhwng y Cronfeydd Strwythurol a Rhaglenni UE eraill a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn yn bwysig iawn hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n archwilio'r Rhaglenni hyn gyda'r bwriad o fanteisio ymhellach ar gyfleoedd a manteision a chynyddu eu proffil yng Nghymru.

21. Cymru oedd un o'r rhanbarthau cyntaf i lansio'r rhaglen Horizon 2020 mewn digwyddiad clodfawr ar 13 Tachwedd 2013. Bydd y rhaglen sy'n olynu'r Seithfed Rhaglen Fframwaith (neu FP7) yn werth tua £65 biliwn ledled yr UE ac mae WEFO wedi sefydlu uned benodol i ddarparu cymorth ac arweiniad ar gyfleoedd a ddarperir o dan y rhaglen hon.

Adolygiad Guilford o Drefniadau Gweithredu

22. Roedd adolygiad Dr Guilford o blaid newid WEFO i fodel darparu symlach, mwy strategol a nododd bod y profiad a'r wybodaeth a enillwyd yn weithredol wrth newid i'r dull mwy strategol hwn wedi darparu sylfaen diogel er mwyn meithrin gallu'r rhaglen i ddarparu yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y pedwar argymhelliad ar ddeg a nodwyd yn yr Adolygiad.

23. Argymhelliad canolog Dr Guilford yw i WEFO ddatblygu Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd ar draws y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd i sicrhau mwy o ffocws a chanolbwyntio wrth ddefnyddio'r cronfeydd hyn. Bydd y Fframwaith yn cefnogi blaenoriaethu prosiectau sy'n amlwg yn gyson â chyfleoedd allweddol ar gyfer twf economaidd ac sy'n ychwanegu gwerth at raglenni buddsoddi'r sector cyhoeddus a phreifat.

24. Cyhoeddwyd fersiwn gyntaf y Fframwaith ym mis Tachwedd 2013, ochr yn ochr â drafft pennod Cymru o'r Cytundeb Partneriaeth a Rhaglenni Gweithredol drafft Cymru. Mae swyddogion WEFO yn parhau i weithio gydag adrannau polisi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i goethi'r Fframwaith ymhellach; bydd fersiwn wedi'i ddiweddarau'n cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth. Mae'r Fframwaith yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddarau gydol cyfnod y rhaglen i adlewyrchu newidiadau i'r amgylcheddau economaidd a strategol, cyfleoedd economaidd newydd a'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar weithredu'r rhaglenni.

25. Mae WEFO yn paratoi cyfres fanwl o ganllawiau sy'n ymwneud â gweithredu Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 mewn cydweithrediad â phartneriaid, gan gynnwys Pwyllgor Monitro Rhaglenni cysgodol sydd newydd ei sefydlu (gweler isod). Bydd hyn yn mynd i'r afael â llawer o'r argymhellion sy'n weddill o adolygiad Guilford a byddant ar gael ar ffurf drafft ym mis Mawrth.

Pwyllgor Monitro Rhaglenni newydd Cymru

26. Sefydlwyd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd newydd Cymru tua diwedd 2013 ac mae wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma ar ffurf gysgodol tan y ceir cytundeb ar y rhaglenni newydd, ym mis Rhagfyr 2013 a mis Chwefror 2014. Mae'n darparu asesiad mwy cyfannol o effaith ac effeithlonrwydd y cronfeydd yn erbyn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd newydd a'r wybodaeth fonitro a argymhellwyd gan Dr Guilford.

27. Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni eisoes wedi archwilio'r meini prawf asesu arfaethedig a fydd yn cael eu defnyddio gan awdurdodau'r rhaglen i ddewis prosiectau unigol i dderbyn cefnogaeth gan gronfeydd yr UE. Maes o law, bydd cytuno'r meini prawf yn ffurfiol yn galluogi i benderfyniadau cynnar gael eu gwneud ar gymeradwyo'r prosiectau UE cyntaf cyn gynted ag y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cytuno ar y rhaglenni newydd.

28. Cynlluniwyd cyfansoddiad Pwyllgor Monitro'r Rhaglen a'r prosesau recriwtio i sicrhau cynrychiolaeth gref o'r sector preifat, cydbwysedd rhwng y rhywiau, cynrychiolaeth o bob rhanbarth daearyddol, a gwybodaeth am bob un o dair cronfa'r UE. Mae dros draean y Pwyllgor (35%) yn cynrychioli busnes a menter neu, yn achos y rhai a benodwyd nad ydynt yn cynrychioli eraill, arbenigedd sector preifat. Mae cynrychiolaeth y sector preifat yn amrywiol, gan gynnwys masnach gyffredinol, busnesau gwledig a ffermio, gweithwyr mewn sefydliadau sector preifat, a mentrau

cymdeithasol. Mae **Atodiad A** yn dangos aelodaeth Pwyllgor Monitro'r Rhaglen.

Aelodaeth Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru 2014-2020

Cadeirydd	
Aelod Cynulliad, penodir gan y Prif Weinidog	Jenny Rathbone AC
Awdurdodau lleol a grwpiau cenedlaethol, rhanbarthol, trefol/ dinas-ranbarth	
Llywodraeth Leol <i>Enwebiadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</i>	Y Cynghorydd Bob Wellington Y Cynghorydd Ronnie Hughes
Llywodraeth Leol <i>Prif dderbynyddion cronfeydd yr UE</i>	Cath Jenkins (AdAS) Marcella Maxwell (DEST) Matthew Quinn (Dyfodol Cynaliadwy)
Grwpiau Gweithredu Lleol <i>ARWEINYDD/ Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned</i>	<i>I'w enwebu ar ôl cwblhau'r broses ymgeisio a dynodi LEADER Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020</i>
Llywodraeth y DU (gwasanaethau cyflogaeth gyhoeddus) <i>Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Canolfan Byd Gwaith</i>	Jocelyn Llewelyn Enwebiad gan y Ganolfan Byd Gwaith
Partneriaid Economaidd a Chymdeithasol	
BUSNES A MENTER	
Cynrychiolwyr busnes a menter <i>Undebau Llafur, cymdeithasau proffesiynol neu fasnach: yn cynrychioli mentrau preifat Masnachol</i>	Ann Beynon ¹ Iestyn Davies ¹ Margaret Thomas ² Martin Mansfield ² Tom Whyatt ³ ¹ Enwebiadau gan Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru/ Commerce Cymru ² Enwebiadau gan TUC Cymru ³ Enwebiad gan Diwydiant Cymru

<p>Cynrychiolwyr busnesau ffermio a gwledig</p> <p><i>Undebau'r Ffermwyr, cymdeithasau proffesiynol neu fasnach: yn cynrychioli mentrau Gwledig, ffermio, bwyd</i></p>	<p>Rhian Nowell-Phillips¹</p> <p>Karen Anthony²</p> <p>¹ Enwebiad ar y cyd gan NFU Cymru a FUW ² Enwebiad gan CLA Cymru, yn cynrychioli'r economi wledig</p>
<p>Busnes a menter y trydydd sector</p> <p><i>Economi gymdeithasol, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydfuddiannol, cydweithfeydd, undebau credyd ac ati</i></p>	<p>Derek Walker</p> <p>Enwebiad gan Ganolfan Cydweithredol Cymru</p>
<p>SEFYDLIADAU ADDYSGOL</p>	
<p>Addysg Bellach</p>	<p>Gregg Walker</p> <p>Enwebwyd gan Colegau Cymru</p>
<p>Addysg Uwch</p>	<p>Dr David Blaney¹</p> <p>April McMahon²</p> <p>¹ Enwebiad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ² Enwebiad gan Addysg Uwch Cymru</p>
<p>Y TRYDYDD SECTOR</p>	
<p>Y Trydydd Sector</p> <p><i>Heblaw mentrau cymdeithasol</i></p>	<p>Phil Fiander</p> <p>Enwebiad gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru</p>
<p>Cynrychiolwyr cyrff amgylcheddol a chydaddoldeb a chymdeithas sifil</p>	
<p>Penodiadau Cyhoeddus</p> <p><i>Cystadleuaeth agored, penodiadau ar sail teilyngdod (arbenigedd unigol – ddim yn cynrychioli sector neu sefydliad)</i></p>	<p>David (Dai) Davies</p> <p>Yr Athro Richard B Davies</p> <p>Dr Grahame Guilford</p> <p>Joy Kent</p> <p>Sian Price</p> <p>Beth Winkley</p>
<p>Cynaliadwyedd amgylcheddol</p> <p><i>Cyrff statudol</i></p>	<p>Rhian Jardine</p> <p>Enwebiad Cyfoeth Naturiol Cymru</p>
<p>Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol</p> <p><i>Canolbwyntio, er nad yn unig o bosibl, ar</i></p>	<p>Arfon Williams</p> <p>Enwebiad ar y cyd gan RSPB Cymru a</p>

fesurau amaeth-amgylchedd-hinsawdd y Cynllun Datblygu Gwledig	Cyswllt Amgylchedd Cymru
--	--------------------------

Eitem 9

Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Mawrth 2014

Amser: 09.02 – 12.30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_12_03_2014&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

William Graham (Cadeirydd)
Mick Antoniw
Keith Davies
Dafydd Elis-Thomas
Rhun ap Iorwerth
Julie James
Joyce Watson

Tystion:

Jessica Blair, Sefydliad Materion Cymreig
Barbara Burchell, Gwasanaeth Datblygu Cymunedol,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Filippo Compagni, Cyngor Sir Powys
Professor Russell Deacon, Coleg Gwent
Lowri Gwilym, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Sharron Lusher, Coleg Sir Benfro
Helen Morgan, Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru,
Cyngor Sir Caerfyrddin
Simon Stewart, Prifysgol Glyndŵr ac Connect Cymru

Sharon Thomas, ECTARC
Helen Wales, Cyfnewid UNA
Dr Greg Walker, ColegauCymru

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan David Rees AC, Eluned Parrott AC a Byron Davies AC.

2 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014–2020 (sesiwn 1) (09.20–09.50)

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Russell Deacon, Darlithydd mewn hanes a gwleidyddiaeth, Coleg Gwent

3 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014–2020 (sesiwn 2) (09.50–10.40)

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Greg Walker, Dirprwy Brif Weithredwr, Colegau Cymru; Sharron Lusher, Pennaeth, Coleg Sir Benfro; Sharon Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol, ECTARC; a Jessica Blair, Dadansoddwr Polisi, Sefydliad Materion Cymreig.

4 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014–2020 (sesiwn 3) (10.55–11.25)

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Simon Stewart, Uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Glyndŵr ac aelod o bwyllgor Connect Cymru; a Helen Wales, Cyfarwyddwr, Cyfnewid UNA.

5 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014–2020 (sesiwn 4) (11.25–12.10)

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Filippo Compagni, Rheolwr Cyllid Ewropeaidd a Phrosiectau, Cyngor Sir Powys; Barbara Burchell, Prif Swyddog Datblygu Prosiectau Ewropeaidd, Gwasanaeth Datblygu Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Helen Morgan, Uwch Reolwr, Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin.

6 Papurau i'w nodi

6.1 Nododd y Pwyllgor y dogfennau ategol a ganlyn:

EBC(4)-07-14(p.5) - Tystiolaeth atodol

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Inquiry into the Welsh Government's approach to the promotion of trade and inward investment

Additional information from UKTI

Introduction to SNO

- Surfacing the National Offer (SNO) is one of the resources used by the Investment Services Team (IST) to support the delivery of inward investment into the UK. It is one of a basket of tools used by the IST to help and support investors with their location decisions.
- SNO is a database which holds information and specific data points about individual localities in the UK. The 27 data points in SNO are based around key drivers of investment location decisions. SNO is able to:
 - Weight the drivers identified by the client as important for their investment;
 - Combine multiple drivers (as a client frequently has a range of drivers), and;
 - Combine the weightings associated with these multiple drivers to generate a “best fit” list of potential locations across sectors and sub-sectors for consideration by the client.
- Data in SNO is drawn from two principle sources: local partners (LEPs & DAs) and independent data suppliers.
- SNO is used to support a range of IST activities including project delivery, identifying locations for Investment Briefing Tours; the development of sector and sub-sector propositions and strategy development.
- Every project is different and as such requires a different handling approach and a different type of proposal. SNO is just one of many tools. IST is able to pull on a range of different tools and information sources to support the bespoke development of each client proposal. Sources include: IST Sector Team knowledge, IST Market Intelligence Service, local partners, UKTI Sector Specialists, Industry Networks and sector and sub-sector propositions.
- The limitations of SNO should also be recognised and taken into account. The 27 data points within SNO do not cover all factors which influence investment location decision-making, and the evidence-base which underpins SNO is continuously evolving.

Welsh Government & UKTI

FDI Capability Development Support Programme, September 2012 – March 2013

Final Report

Gareth John/John Rutherford
UKTI Investment Services Team-
March 2013

1.0 Background and Scope of Programme.

There is a renewed commitment by the Welsh Government (WG) to develop a dedicated trade and inward investment operation to support the focus on key sectors and to improve Wales' visibility in FDI donor markets and with UKTI.

To help deliver this aspiration, UKTI provided a resource of two experienced individuals (Gareth John and John Rutherford) over a period of 6 months to support the Wales Government primarily in the following areas;

- To liaise with the WG on UKTI policy and strategic issues, and facilitate integration with specific UKTI programmes relevant to Wales;
- To assist the newly formed Wales Trade & Investment team as it builds up its FDI capability and pipeline;
- To improve the working relationships between the Trade and Inward Investment Team and priority Sector Teams of the WG Department for Business Enterprise, Technology and Science (BETS) with UKTI teams in England and overseas;
- To support the Wales sector teams in presenting and developing their propositions both to UKTI and potential investors;

In supporting this capability development, the main emphasis of the UKTI team was to facilitate greater understanding and closer sustainable working relationships between Wales and UKTI (locally and overseas) to ultimately drive a stronger and more successful project pipeline into Wales

2.0 Outline of agreed work plan

This section sets out the key activities which were agreed between UKTI and the Welsh Government over the 6 months term, focussing upon the key areas of:

- **Interaction with National Inward Investment Pipeline (data and lead management)**
- **FDI Project management**
- **Account Management**
- **Sector Strategy Development**
- **Post Engagement Planning**
- **UKTI Product Awareness**
- **Accredited Training**

To this initial list we also explored opportunities of working with UKTI around Trade (High Value Opportunities in particular) and Institutional Investment (exploring how Wales can benefit from relationships with Pension Funds and Sovereign Wealth Funds).

3.0 Action Undertaken and Outcomes

Programme Area	Performance Indicator	Outcome as of March 2013	Comment
Data at National Pipeline level Tudalen 138	i) Arrange pipeline training for all relevant WG staff and arrange user access;	Two training programmes for Investment and Sector team staff completed with key staff from each team now aware of how to input and interrogate the pipeline	WG has indicated a need for future training sessions which will be carried out by EMU staff Going forward, we hope WG staff will have short placements in EMU to gain a better understanding of how the operation works and to strengthen relationships
	ii) Appoint WG Trade & Investment 'super user' who can act as point of contact for EMU and ensure consistency of approach for data entry;	In place. Louise McShane fills this role	Monthly pipeline reports showing overall and Wales' position are presented each month
	iii) set up process and format for pipeline reports to be produced for discussion with MPG;	Not completed. WG have no issues with fulfilling this requirement, but are concerned about the resource required to carry out the initial task	
	iv) ensure Welsh projects added to Single National Pipeline in accordance with MOU by 31/3/13		
Lead Management;	i) Review the management of FDI enquiry processes between UKTI and WG to ensure these are closely aligned and allow effective handling of enquires	Mostly in place. UKTI generated enquiries are passed by EMU to general enquiries point in MPG. Improved working relationships between sector teams should ensure effective project management	Reminder of WG enquiries point address circulated to all UKTI Market and Sector teams

	<p>FDI Project management</p> <p>i) Set up monthly pipeline review meetings between Investment/Sector teams and UKTI;</p> <p>ii) Ensure all WG project successes are made aware to UKTI in a timely fashion and certainly in good time for UKTI Annual Report</p>	<p>No formal process in place but individual sector teams are holding talks with their opposite numbers</p> <p>New process in place to ensure WG successes are uploaded to SNP and CRM in a timely fashion</p>	<p>Creating a regular monthly meeting between sector teams is overambitious given the potential requirement for UKTI to do this with all partners. All Welsh sector teams have been invited to interrogate the pipeline and contact UKTI as and when required.</p> <p>WG now seen as one of the star performers in terms of the timely input of project successes onto the pipeline</p>
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 139</p>	<p>Account Management</p> <p>i) Arrange senior level meeting to ensure effective coordination on account management of relevant Welsh anchor companies;</p> <p>ii) ensure that UKTI account managers that have clients with a Welsh location include opposite numbers in WG in virtual team</p>	<p>Senior level meetings held between heads of WG Anchor Companies and UKTI SRM. Adam Cartwright provided briefing to WG account managers and BETS senior management team</p> <p>Coordination of UKTI and WG account managed companies is being put in place. WG are cross referencing all companies on UKTI's 'one list' for those with a Welsh operation/account manager to ensure WG presence on any virtual account management team</p>	<p>Further meetings between UKTI's Strategic Relationship Management team, IST's Account Management team and BETS sector teams to be arranged to ensure improved coordination</p> <p>WG carrying out audit of all foreign owned companies in Wales which when complete, will also be cross referenced with 'One List'</p>

<p>Sector Strategy Development</p>	<p>i) Ensure BETS sector teams and their opposite numbers in UKTI are working together effectively and that the latter are aware of the Welsh offer;</p> <p>ii) Ensure there is an effective channel in place for Welsh input to all relevant sector propositions</p> <p>iii) UKTI sector specialists to meet with BETS sector teams</p> <p>iv) Provide training support on proposition development;(see below).</p>	<p>Meetings arranged between all UKTI and BETS sector teams to discuss strategy, projects and propositions and to enhance working relationships</p> <p>BETS sector teams are contributing to development of all sector propositions. This is coordinated by Louise McShane.</p> <p>All BETS sector teams contributed to round 2 of SNO input (only one contributed to round 1)</p> <p>Engagement grid of UKTI sector specialists relationships with Welsh-based companies developed. Sector specialists invited to WG/UKTI sector meetings</p> <p>IST to deliver workshop on proposition development in Q1 2013/14</p>	<p>Two meetings arranged but yet to take place</p> <p>UKTI has suggested new WG sector case studies can be used to support BIS industrial strategy work</p> <p>To be updated on a quarterly basis</p>
<p>Post Engagement Planning</p>	<p>i) ensure Wales is considered when Investment Briefing Tour itineraries are being set up;</p>	<p>BETS sector teams have presented to ICT/Creative and Life Sciences briefing tours in London and the Science & innovation Tour visited Wales in March. JR has spoken to UKTI coordinator of briefing tours to make case for Welsh involvement in future tours</p>	<p>Any case for Wales must be considered as part of other DA/LEP requests to be included in tour</p>

	<p>ii) alert individual visiting overseas staff to opportunity of receiving briefing at WG London office;</p> <p>iii) ensure WG staff travelling overseas are linked in to relevant UKTI overseas teams</p>	<p>Ad-hoc alerts have been issued. This will also be highlighted through UKTI in-house bulletin</p> <p>Copy of UKTI's overseas staff brochure has been passed to WG, along with offer to provide introductions to heads of overseas teams</p>	<p>Consideration to be given as to how to assist WG as they expand their overseas operations with the aim of placing staff within or alongside UKTI operations</p>
UKTI Product awareness	<p>Arrange briefing for BETS sector teams and T&I team on LSIO, Tech City, GEP and any other new UKTI products developed over contract period</p>	<p>Briefings by LSIO, Tech City and GEP have been arranged for relevant WG sector teams. Other briefings have taken place on institutional investment and HVO</p>	<p>Ensure WG considered for any roll-out of future UKTI campaigns.</p> <p>Further engagement planned on GEP, HVO and Institutional Investment</p>
Training	<p>Present UKTI accredited training modules to T&I team with a view to arranging training programme , especially on lead generation and Proposition development.</p>	<p>Following presentation by JR to Head of Investment, WG will develop a spec of what they would like for internal training.</p> <p>Workshop on proposition development planned in Q1 13/14</p>	<p>JR has provided some ad-hoc support on lead generation best practice</p>

Signed for and behalf of Welsh Government:

.....

Name.....

Date.....

Signed for and behalf of UKTI investment Services Team

.....

Name.....

Date.....



SNOv2 Data Points

Tudalen 143

Item	Data Point description	Is the Data Point by sector?	SNO location driver category	SNO data source
1	Significant Businesses by Sector	Yes	Industry presence	LEPs & DAs
2	Employees within Significant Businesses by Sector	Yes	Workforce/Skills	LEPs & DAs
3	Significant Businesses by Sub-sector	Yes	Industry presence	LEPs & DAs
4	Employees within Significant Businesses by Sub-sector	Yes	Workforce/Skills	LEPs & DAs
5	Centres of Excellence by Sector	Yes	Research & Innovation	LEPs & DAs
6	Centres of Excellence by Sub-sector	Yes	Research & Innovation	LEPs & DAs
7	Grants by Sector	Yes	Incentives	LEPs & DAs
8	Incentives by Sector	Yes	Incentives	LEPs & DAs
9	Enterprise Zones by Sector	Yes	Incentives	LEPs & DAs
10	Total Business Base by Sector - Enterprises	Yes	Industry presence	Office for National Statistics - IDBR
11	Total Business Base by Sector - Local Units	Yes	Industry presence	Office for National Statistics - IDBR
12	Total Employment Base by Sector	Yes	Workforce/Skills	Office for National Statistics - BRES
13	Number of Graduates	No – data is by subject	Workforce/Skills	Higher Education Statistics Agency
14	Independent Research Rating	No – data is by subject	Research & Innovation	Research Assessment Exercise
15	Economically Active Individuals	No	Workforce/Skills	Office for National Statistics - APS
16	Average House Price	No	Living Environment	BBC House Price Index
17	Average Industrial Rent	No	Business Costs	CoStar Focus
18	Average Office Rent	No	Business Costs	CoStar Focus
19	Average Retail Rent	No	Business Costs	CoStar Focus
20	Average Salaries	No	Business Costs	ERI Salary Assessor
21	Cost of Living	No	Living Environment	ERI Relocation Assessor
22	Quality of Life	No	Living Environment	Halifax Quality of Life Survey
23	Broadband Speeds	No	Telecommunications	Ofcom
24	Proximity to Railway Stations	No	Access to market	Mileage distances
25	Proximity to Motorway Junctions	No	Access to market	Mileage distances
26	Proximity to International Airports	No	Access to market	Mileage distances
27	Proximity to Major Sea Ports	No	Access to market	Mileage distances